# Adrodd ar Adran 6

## *Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned*

***Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6***
***Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau***

**Adroddiad y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2025**

**Cymeradwywyd 12 Ionawr 2026**

## Cyngor Cymuned Llanfrothen

**Grŵp**: 2

Cyngor Cymuned wledig yw Cyngor Cymuned Llanfrothen. Roedd ein praesept ar gyfer 2024/2025 yn £12,800.

Mae gan Gyngor Cymuned Llanfrothen 8 o Gynghorwyr a thair sedd wag ar hyn o bryd. Fe gyflogir Clerc yn rhan amser.

Mae dalgylch Cyngor Cymuned Llanfrothen yn cynnwys pentrefi Garreg, Croesor a Rhyd. Mae Porthmadog yn dref weinyddol gyfagos.

Mae rhan helaethaf y Cyngor Cymuned ym Mharc Cenedlaethol Eryri, ac mae'r dirwedd yn codi o fod yn dirwedd ar lefel y môr ym mhentref Garreg i dros 550 m ym mhentref Croesor, a'r mynyddoedd o gwmpas yn uwch.

Ceir nifer o fentrau cymdeithasol yn y gymuned, yn cynnwys Siop a Chaffi Llanfrothen, Tafarn Y Ring a Chaffi Croesor, ac mae'r ardal yn boblogaidd iawn gan ymwelwyr, gyda llawer yn teithio yma i gerdded y mynyddoedd.

Yn ogystal, mae Ymddiriedolaeth Brondanw yn berchen ar nifer o fythynnod, ffermydd a choetiroedd yn y gymuned yn ogystal â Phlas Brondanw a Chaffi Brondanw. Nod yr Ymddiriedolaeth yw hyrwyddo'r arfer o warchod cefn gwlad, a hyn yn cynnwys ei

phlanhigion a'u hanifeiliaid. Mae'r cyngor cymuned yn aml yn cydweithio'n agos efo Ymddiriedolaeth Brondanw er budd y gymuned leol.

Mae'r gan y Cyngor Cymuned les tymor hir ar Y Ganolfan yn Llanfrothen.

Y Cyngor Cymuned sydd yn gyfrifol am fynwent Tan Lan, mynwent wledig y tu allan i bentref Garreg.

| **Adroddiad Gweithredu 2023-2025** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan NRAP** | **Camau gweithredu** | | **Wedi'u monitro gan** |
| **1** | Cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael | Ble mae'n bosibl ac yn rhesymol, mae'r Cyngor Cymuned yn ystyried bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau a chaffael.<br><br>Wrth ystyried ceisiadau cynllunio, mae'r elfen bioamrywiaeth yn cael ystyriaeth ble'n briodol, a gellir ystyried Canllawiau Bioamrywiaeth Un Llais Cymru pan yn gwneud hyn. | Y Clerc ac aelodau'r Cyngor Cymuned |
| | Cynyddu ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd | Wrth drafod unrhyw faterion efo mudiadau a mentrau lleol fel Siop a Chaffi Llanfrothen, tafarn Y Ring, gall y Cyngor Cymuned atgoffa'r mudiadau hynny i roi ystyriaeth i faterion bioamrywiaeth. | Y Clerc ac aelodau'r Cyngor Cymuned |
| **2** | Diogelu prif rywogaethau a chynefinoedd | Gwneir pob ymdrech i beidio â defnyddio pla laddwyr, ond gwneir eithriad ble y mae'n rhaid delio efo canclwm siapan sydd wedi bod yn broblem yn lleol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. | Y Clerc ac aelodau'r Cyngor Cymuned |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **3** | Adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth | Mewn cydweithrediad a Pharc Cenedlaethol Eryri , plannwyd coed Yw ym mynwent Tan Lan yn 2025, ac mae hyn yn cyfrannu at greu a chynyddu ecoleg yn y fynwent.<br><br>Cafwyd cwynion fod Moch Daear yn ymweld â'r fynwent ac yn amharu ar bridd beddau newydd. Wedi trafod y mater, ac oherwydd lleoliad gwledig y fynwent sydd yn gorgyffwrdd â chaeau a choed cyfagos, penderfynwyd nad oedd hi'n bosibl rhwystro mynediad y Moch Daear yn gyfan gwbl, a'u bod beth bynnag yn rhan o'r system ecolegol leol. | Y Clerc ac aelodau'r Cyngor Cymuned |
| **4** | Mynd i'r afael ag elfennau negyddol : e.e. lleihau llygredd, defnyddio atebion seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol | Mae'r Cyngor Cymuned yn gynyddol ymwybodol o blanhigion estron , ac yn arbennig presenoldeb Canclwm Siapaneaidd yn y gymuned.<br><br>Gofynnwyd i gontractwr preifat drin a chanclwm Siapan oedd yn tyfu yn y gymuned yn ystod 2024 a 2025.<br><br>Fodd bynnag, mae'n bosibl fod ffynonellau Canclwm eraill yn y gymuned sydd yn cael ei dorri gan eraill , heb ymwybyddiaeth y Cyngor Cymuned ac felly'n ei ledaenu.<br><br>Codwyd cysgodfan gan y Cyngor Cymuned ym mhentref Garreg yn ddiweddar. Dylai'r gysgodfan annog mwy o ddefnydd o fysiau yn hytrach na cheir gan felly gyfrannu at wella ecoleg yn lleol. | Y Clerc ac aelodau'r Cyngor Cymuned |
| **5** | Defnyddio, gwella a rhannu tystiolaeth | Mae'r Cyngor Cymuned yn ymwybodol y gallant gysylltu efo swyddogion Bioamrywiaeth Un Llais Cymru os am unrhyw gyngor ar faterion bioamrywiaeth. | Y Clerc ac aelodau'r Cyngor Cymuned |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **6** | Cefnogi capasiti a/neu sefydliadau eraill | Ar gyfer 2026, anogir aelodau i fynychu hyfforddiant bioamrywiaeth ac i gadw'r adroddiad hwn a'n polisi bioamrywiaeth mewn cof wrth wneud penderfyniadau<br><br>Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar ein gwefan ac ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru | Y Clerc ac aelodau'r Cyngor Cymuned |

**Arolwg o gamau gweithredu dyletswydd Adran 6 2023-2025**

| | |
|---|---|
| Beth sydd wedi gweithio'n dda? | Ni ddefnyddiwyd unrhyw blaladdwyr gan y Cyngor Cymuned dros y flwyddyn ddiwethaf.<br><br>Mae'r aelodau'r Cyngor Cymuned yn fwy ymwybodol o'r angen i roi ystyriaeth i fioamrywiaeth wrth weithredu fel Cyngor Cymuned. |
| Beth fu'r rhwystrau? | Cymharol gyfyng yw gallu'r Cyngor Cymuned i reoli bioamrywiaeth gan nad yw'n berchen ar lawer o dir. |
| Beth fyddwch yn ei newid? | Wrth dalu am wasanaethau/dyfarnu cytundebau, rhoi gwell ystyriaeth i unrhyw effaith ar fioamrywiaeth ac a ddylai fod disgwyliad i'r darparwr gwasanaeth/rhai sy'n cael cytundeb gwaith gydymffurfio ac agweddau bioamrywiaethol. |
| Sut a phryd y bydd y ddyletswydd Adran 6 yn cael ei | Dyma'r adroddiad Adran 6 ar gyfer 2025. Ysgrifennir Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth newydd yn 2026 ac fe gaiff ei adolygu'n flynyddol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | monitor a'r cynllun Adran 6 yn cael ei adolygu? | | |